

# Adroddiad Arolygu Gwasanaeth Iechyd Meddwl Annibynnol (Dirybudd)

Ysbyty Tŷ Cwm Rhondda

Dyddiad yr arolygiad: 2,3 a 4 Chwefror 2026

Dyddiad cyhoeddi: 7 Mai 2026



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163  
E-bost: [agic@llyw.cymru](mailto:agic@llyw.cymru)  
Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

ISBN Digidol 978-1-83745-515-7

© Hawlfraint y Goron 2026

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

## Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

## Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac yn dylanwadu arno

## Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau



# Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom .....	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad .....	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym .....	9
	• Ansawdd Profiad y Claf .....	9
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol .....	13
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth .....	19
4.	Y camau nesaf .....	22
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad .....	23
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith .....	24
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	26

# 1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad iechyd meddwl annibynnol dirybudd yn Ysbyty Tŷ Cwm Rhondda ar 2, 3 a 4 Chwefror 2026.

Adolygwyd wardiau canlynol yr ysbyty yn ystod yr arolygiad hwn:

- Ward Cilliard - 10 gwely sy'n darparu gwasanaethau iechyd meddwl diogelwch isel
- Ward Clydwch - 10 gwely sy'n darparu gwasanaethau iechyd meddwl diogelwch isel.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o arolygwyr gofal iechyd AGIC, tri adolygydd cymheiriaid clinigol (yr oedd un ohonynt yn adolygydd enwebedig o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl) ac un adolygydd profiad y claf.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn ar weithio i'r gwasanaeth i ni. Cwblhawyd cyfanswm o bedwar holiadur gan gleifion neu eu gofalwyr, a chwblhawyd un gan aelod o'r staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad. Gwnaethom hefyd siarad â'r staff a'r cleifion yn ystod yr arolygiad ac mae rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Noder bod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

## 2. Crynodeb o'r arolygiad

### Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Ar y cyfan, disgrifiodd cleifion Tŷ Cwm Rhondda brofiad cadarnhaol o ofal, a gwelodd y tîm arolygu ryngweithio pwylllog, parchus a chefnogol ar y ddwy ward. Dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn teimlo bod y staff yn gwrandao arnynt ac yn eu trin ag urddas, a'u bod yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau ystyrllon a oedd yn cefnogi eu hiechyd, eu llesiant a'u hannibyniaeth, gan gynnwys sesiynau yn y gampfa, dosbarthiadau coginio, ac arferion grŵp strwythuredig fel y cyfarfod boreol dyddiol.

Roedd y staff yn cyfathrebu'n glir ac yn addasu eu dull gweithredu ar gyfer anghenion unigol, gan ddefnyddio adnoddau cyfieithu neu wasanaethau dehonglydd lle bo angen, ac roedd gwybodaeth hygyrch am eiriolaeth, hawliau a chwynion wedi'i harddangos yn glir ym mhob rhan o'r gwasanaeth. Roedd y Cynlluniau Gofal a Thriniaeth yn gynhwysfawr ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, ac roeddent yn cynnwys mewnbwn da gan y tîm amlddisgyblaethol a thystiolaeth glir o brosesau monitro iechyd corfforol ac asesiadau risg.

Fodd bynnag, roedd angen gwneud rhaid gwelliannau i wella cysondeb ac ansawdd y ddogfennaeth, yn enwedig o ran sicrhau bod llais y claf yn cael ei adlewyrchu yn ei eiriau ei hun, a diweddarau'r cynlluniau cefnogi ymddygiad yn gadarnhaol.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dylai'r cynlluniau gofal adlewyrchu llais y claf yn ei eiriau ei hun yn gyson.
- Rhaid diweddarau'r cynlluniau cefnogi ymddygiad yn gadarnhaol i adlewyrchu anghenion presennol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y staff yn trin y cleifion â charedigrwydd, urddas a pharch, ac yn creu amgylchedd therapiwtig hamddenol a chefnogol.
- Roedd amrywiaeth eang o weithgareddau ystyrllon yn hybu iechyd corfforol ac yn hyrwyddo ymgysylltiad cymdeithasol ac annibyniaeth.
- Roedd y prosesau monitro iechyd corfforol yn gadarn, ac roedd y cynlluniau gofal yn cynnwys mewnbwn da gan y tîm amlddisgyblaethol.

### Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Ar y cyfan, roedd y gwasanaeth yn darparu gofal diogel a chlinigol effeithiol, wedi'i gefnogi gan systemau cadarn ar gyfer rheoli meddyginiaethau, monitro iechyd corfforol, a diogelu. Dangosodd y staff ddealltwriaeth glir o risgiau, ac roedd yr amgylchedd yn lân, yn hamddenol, ac yn addas i ddarparu triniaeth. Roedd gwiriadau iechyd corfforol wythnosol, gwaith monitro metabolaidd rheolaidd a chamau amserol i gynnwys meddygon teulu yn helpu i sicrhau bod anghenion iechyd ehangach y cleifion yn cael eu diwallu.

Roedd yr arferion atal a rheoli heintiau yn effeithiol ar y cyfan, roedd amserlenni glanhau clir ar waith, roedd cyfarpar diogelu personol ar gael, ac roedd ymwybyddiaeth dda ymhlith y staff. Roedd maeth a hydradu yn cael eu rheoli'n dda, ac roedd y cleifion yn fodlon ar y prydau bwyd a oedd yn cael eu darparu, gan gynnwys deietau wedi'u haddasu a gofynion diwylliannol. Roedd meddyginiaethau'n cael eu storio'n ddiogel, ac roedd archwiliadau'n helpu i fonitro arferion diogel.

Fodd bynnag, roedd angen gwneud gwelliannau mewn rhai meysydd er mwyn sicrhau bod y gofal yn parhau'n gyson ddiogel. Nid oedd Cynlluniau Cefnogi Ymddygiad yn Gadarnhaol rhai o'r cleifion wedi cael eu diweddarau, ac nid oeddent yn adlewyrchu eu hanghenion neu risgiau presennol. Yn ystod yr arolygiad, nodwyd pryder yn ymwneud â storio meddyginiaeth a oedd wedi'i thafu yn anniogel; cafodd hyn ei ddatrys ar unwaith. Roedd y gofal yn cael ei gefnogi gan staff ymrwymedig, archwiliadau rheolaidd a phrosesau llywodraethu clir, a oedd yn helpu i gynnal diogelwch ar y wardiau.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod y Cynlluniau Cefnogi Ymddygiad yn Gadarnhaol yn cael eu diweddarau'n rheolaidd fel eu bod yn adlewyrchu anghenion a phroffil risg presennol pob claf.
- Sicrhau bod meddyginiaeth wedi'i thafu yn cael ei storio'n briodol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd gofal iechyd corfforol wedi'i ymgorffori'n gadarn, gan gynnwys prosesau monitro wythnosol, sgrinio metabolaidd rheolaidd, a mynediad da at wasanaethau iechyd allanol.
- Roedd y trefniadau diogelu yn gadarn, ac roedd y staff wedi cwblhau hyfforddiant hyd at y lefelau priodol.

## **Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth**

Crynodeb cyffredinol:

Ar y cyfan, roedd arweinyddiaeth a rheolaeth Tŷ Cwm Rhondda yn effeithiol, yn weladwy ac yn gefnogol. Nododd y staff yn gyson fod yr uwch-reolwyr yn hawdd mynd atynt, ar gael, ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau o ddydd i ddydd ar y wardiau, a oedd yn helpu i greu diwylliant cadarnhaol ac agored.

Roedd risgiau'n cael eu rheoli'n dda, ac roedd y staff yn hyderus wrth uwchgyfeirio pryderon, gan addasu lefelau arsylwi a defnyddio'r broses ddyddiol o drosglwyddo rhwng shifftiau i fonitro newidiadau. Roedd y trefniadau diogelwch tân, y systemau larwm a'r mynediad at dorwyr clymau yn briodol.

Roedd strwythurau'r gweithlu yn sefydlog, a dywedodd y staff eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi'n dda. Roedd lefelau uchel o gydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol, ac roedd prosesau goruchwyllo, myfyrio ac arfarnu wedi'u hymgorffori'n gadarn. Fodd bynnag, roedd angen diweddarau cofnodion hyfforddiant y staff ar gyfer hyfforddiant penodol fel hyfforddiant BOC ar silindrau ocsigen.

Roedd datblygiad proffesiynol yn cael ei annog, a gallai'r staff gael hyfforddiant ychwanegol pan fo angen. Roedd y prosesau recriwtio yn ddiogel ac yn cael eu monitro'n dda, a nifer bach o staff asiantaeth oedd yn cael eu defnyddio. Roedd y tîm arwain yn goruchwyllo diogelwch, ansawdd a llesiant y staff yn dda.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Atgyfnerthu'r trefniadau ar gyfer goruchwyllo'r prosesau llywodraethu er mwyn sicrhau bod y cynlluniau cymorth ymddygiadol a dogfennau allweddol eraill yn cael eu hadolygu o fewn yr amserlenni disgwylidig
- Sicrhau bod holl gofnodion hyfforddiant y staff yn cael eu diweddarau i ddangos bod hyfforddiant BOC ar silindrau ocsigen wedi cael ei gwblhau

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y trefniadau llywodraethu yn drefnus ac wedi'u hymgorffori'n glir, gan ddangos atebolrwydd cadarn a systemau arwain effeithiol
- Roedd yr uwch-arweinwyr yn weladwy, yn gefnogol, ac yn hawdd mynd atynt, a oedd yn helpu i greu diwylliant cadarnhaol lle roedd y staff yn teimlo eu bod yn gallu codi pryderon ac yn hyderus y byddai materion yn cael eu datrys.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith wedi'u nodi yn [Atodiad B](#).

## 3. Yr hyn a nodwyd gennym

### Ansawdd Profiad y Claf

#### Hybu, diogelu a gwella iechyd

Roedd cleifion Tŷ Cwm Rhondda yn cael eu cefnogi i gynnal a gwella eu hiechyd a'u llesiant drwy amrywiaeth eang o weithgareddau, prosesau monitro iechyd strwythuredig, a chyswllt rheolaidd â gwasanaethau gofal iechyd mewnol ac allanol. Dangosodd y staff ddealltwriaeth glir o bwysigrwydd hybu iechyd corfforol ac iechyd meddwl, ac roeddent yn cynnwys cyfleoedd a oedd yn canolbwyntio ar iechyd yn yr arferion dyddiol.

Gallai'r cleifion ddefnyddio'r gampfa ar ôl cael asesiad risg gan therapydd galwedigaethol, ac roeddent yn aml yn cymryd rhan mewn sesiynau a oedd wedi'u dylunio i annog gweithgarwch corfforol, gan gynnwys ymarfer corff wedi'i oruchwylio yn y gerddi caeedig. Roedd gweithgareddau fel dosbarthiadau coginio, prosiectau gwaith pren, twrnameintiau pŵl, gemau bwrdd, a digwyddiadau grŵp fel gwyllo gemau pencampwriaeth y Chwe Gwlad a sesiynau rygbi cerdded yn helpu'r cleifion i dreulio amser gyda'i gilydd ac i feithrin sgiliau pob dydd i'w cefnogi pan fyddant yn dychwelyd i'r gymuned.

Roedd asesiadau sgrinio iechyd yn cael eu cynnal yn gyson. Roedd y staff yn sicrhau bod y cleifion yn cael gwiriadau metabolaidd blynyddol. Roedd arsylwadau corfforol rheolaidd hefyd wedi'u hymgorffori yn yr ymarfer, ac roedd "Diwrnod Newyddion" penodol bob dydd Sul yn cael ei ddefnyddio i fonitro arwyddion hanfodol i fywyd a nodi arwyddion cynnar dirywiad mewn iechyd corfforol.

Roedd y cleifion hefyd yn cael eu cefnogi i gymryd rhan mewn rhaglenni sgrinio cenedlaethol, gan gynnwys sgrinio am ganser y coluddyn, ymgyrchodd hybu iechyd, fel wythnos genedlaethol y galon, a Men's Goup, a oedd yn cynnig cyfleoedd pellach i'r cleifion gael addysg a chymorth strwythuredig a oedd yn berthnasol i'w hiechyd hirdymor.

#### Urddas a pharch

Ar y ddwy ward, gwelsom y staff yn rhyngweithio â'r cleifion mewn ffordd garedig, parchus ac ystyriol. Dangosodd y staff sensitifrwydd wrth gefnogi anghenion gofal personol ac roeddent yn rhoi sylw i hawliau unigolion i breifatrwydd.

Roedd gan bob claf ei ystafell wely en-suite ei hun, y gallai ei phersonoli, ac roedd y staff yn sicrhau eu bod yn cnocio ar y drws cyn mynd i mewn. Roedd drysau'r ystafelloedd gwely yn cynnwys ffenestri arsylwi, gyda gorchuddion neu sgriniau priodol, a oedd yn galluogi'r staff i gynnal diogelwch heb darfu ar urddas.

Gallai'r cleifion gloi eu hystafelloedd lle bo hynny'n briodol, yn amodol ar asesiad risg, ac roedd ardaloedd preifat ar gael ar gyfer trafodaethau cyfrinachol, ymweliadau, neu amser tawel.

Roedd staff o wahanol rywiau ar bob shift, a chadarnhaodd y cleifion eu bod yn teimlo'n gyfforddus i fynd at unrhyw aelod o'r tîm i gael cymorth. Roedd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw yn gadarnhaol am y ffordd roeddent yn cael eu trin, a gwnaethant ddweud bod y staff yn ddymunol, yn barchus ac yn ddeallgar.

### **Gwybodaeth i gleifion a chydysyniad cleifion**

Roedd y gwasanaeth yn sicrhau bod y cleifion yn cael gwybodaeth glir a hygyrch am eu gofal, eu hawliau, a'r cymorth a oedd ar gael iddynt. Ar ôl cael eu derbyn, roedd cleifion yn cael canllaw i gleifion, a oedd yn amlinellu gwybodaeth allweddol am yr ysbyty, arferion dyddiol, disgwyliadau, hawliau cyfreithiol, sut i godi pryderon, a sut i gysylltu â gwasanaethau eirioli. Roedd hysbysfyrddau ar y wardiau yn cynnwys gwybodaeth gyfredol am eiriolaeth, rôl AGIC, gweithdrefnau cwyno, cynrychiolwyr cyfreithiol, a phrosesau diogelu. Roedd y wybodaeth hon wedi'i chyflwyno mewn fformatau hygyrch a gallai'r cleifion ei gweld yn hawdd.

Roedd y staff yn helpu'r cleifion i ddeall materion yn ymwneud â galluedd a chydysynio. Roedd y cleifion yn cael gwybodaeth am eu cynlluniau gofal a thriniaeth yn ystod rhyngweithiadau dyddiol, cyfarfodydd wythnosol, ac adolygiadau amlddisgyblaethol. Lle nad oedd gan gleifion alluedd i gydsynio, roedd hyn yn cael ei ddogfennu'n glir ac roedd trefniadau diogelu cyfreithiol priodol yn cael eu rhoi ar waith, gan gynnwys cymorth gan eiriolwyr iechyd meddwl annibynnol a chynrychiolwyr cyfreithiol. Roedd asesiadau galluedd yn cael eu cynnal yn rheolaidd a'u cofnodi yn y nodiadau clinigol.

### **Cyfathrebu'n effeithiol**

Roedd y cyfathrebu rhwng y staff a'r cleifion yn barchus, yn hygyrch, ac yn cael ei addasu i ddiwallu anghenion unigol, a hynny'n gyson. Gwelsom y staff yn esbonio newidiadau i feddyginiaeth mewn ffordd sensitif, gan wneud yn siŵr bod y claf yn deall, ac yn cynnig tawelwch meddwl lle bo angen. Roedd cyfarfod "Beth sy'n Digwydd" dyddiol yn cynnig fforwm strwythuredig ar gyfer trafodaeth agored, gan alluogi'r cleifion i ofyn cwestiynau, trafod cynlluniau a chyfrannu at y broses o redeg y wardiau.

Roedd y gwasanaeth yn ymateb i anghenion ieithyddol. Roedd gwasanaethau cyfieithu yn cael eu defnyddio pan fo angen, ac roedd adnoddau cyfieithu ar-lein yn cael eu defnyddio i gefnogi un claf nad oedd yn siarad llawer o Saesneg yn ystod

sgyrsiau. Roedd cymorth Cymraeg ar gael gan staff sy'n siarad Cymraeg, ac roedd cyrsiau yn cael eu cynnig i staff wella eu sgiliau cyfathrebu dwyieithog. Roedd cyfrinachedd yn cael ei gynnal wrth gyfathrebu drwy ddefnyddio ystafelloedd preifat ar gyfer trafodaethau, goruchwyllo'r defnydd o ddyfeisiau digidol, a gosod paramedrau clir mewn perthynas â defnyddio ffonau symudol.

### **Cynllunio a darparu gofal**

Roedd cynlluniau gofal Tŷ Cwm Rhondda yn fanwl, yn amlddisgyblaethol ac yn cael eu hadolygu'n aml. Roedd gan y cleifion Gynlluniau Gofal a Thriniaeth cynhwysfawr a oedd yn cynnwys asesiadau iechyd meddwl, anghenion iechyd corfforol, ffactorau cymdeithasol a seicolegol, ac asesiadau risg. Roedd adolygiadau'n cael eu cynnal yn rheolaidd ac yn cynnwys cyfraniadau gan y staff nyrsio, y seicolegydd, y clinigydd cyfrifol, a'r cydgysylltwyr gofal.

Roedd y cleifion yn cael eu gwahodd i gymryd rhan mewn trafodaethau am eu gofal, ac roedd eu dewisiadau a'u dymuniadau'n cael eu cydnabod, hyd yn oed lle roeddent yn wahanol i'r argymhellion clinigol. Roedd eu Cynlluniau Gofal a Thriniaeth yn adlewyrchu cynlluniau adsefydlu a oedd yn canolbwyntio ar nodau, gan gynnwys datblygu sgiliau, cymryd rhan mewn gweithgareddau ystyrlon a pharatoi ar gyfer cael eu rhyddhau yn y dyfodol.

Roedd asesiadau iechyd corfforol, risg, ac iechyd meddwl yn cael eu cwblhau'n gyson, a dangosodd y staff ddealltwriaeth dda o ffyrdd o ddarparu gofal a oedd yn hyrwyddo adferiad ac annibyniaeth.

Roedd y cleifion yn cael eu cefnogi i wneud tasgau bywyd pob dydd fel coginio, golchi dillad, a hylendid personol, ac roeddent yn cael cyfleoedd i ddatblygu sgiliau drwy sesiynau unigol a sesiynau grŵp strwythuredig.

### **Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol**

Dangosodd y gwasanaeth ymrwymiad clir i gydraddoldeb a chynhwysiant, a pharch tuag at hawliau dynol. Roedd y staff yn cael hyfforddiant ar gydraddoldeb ac amrywiaeth, ac roedd cydymffurfiaeth yn cael ei monitro fel rhan o'r trefniadau llywodraethu. Gallai'r cleifion ddefnyddio eu ffonau symudol eu hunain, yr aseswyd eu risg, i gyfathrebu â'u teulu a'u heiriolwyr. Roeddent yn cael eu cefnogi i gynnal dewisiadau diwylliannol, crefyddol a phersonol, gan gynnwys anghenion deietegol a manau preifat ar gyfer ymweliadau gan y teulu.

Roedd gwasanaethau eirioli ar gael, ac roedd y cleifion yn gwybod sut i ofyn am gymorth pe baent yn teimlo nad oedd neb yn eu deall neu'n dymuno herio penderfyniadau. Dangosodd y staff ddealltwriaeth o addasiadau rhesymol a gallent ddisgrifio sut y byddent yn addasu gofal i ddiwallu anghenion unigol. Roedd gwybodaeth am hawliau, cwynion, mesurau diogelu, a diogelwch cleifion yn amlwg

iawn ym mhob rhan o'r gwasanaeth, a oedd yn helpu i rymuso'r cleifion i gymryd rhan yn eu gofal.

### **Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth**

Roedd y cleifion yn cael eu hannog i rannu eu barn drwy amrywiaeth o sianeli strwythuredig ac anffurfiol. Roedd cyfarfodydd cleifion dyddiol yn galluogi unigolion i gyfrannu at weithgareddau cynllunio, trafod pryderon, ac awgrymu gwelliannau. Roedd cyfarfodydd cymunedol misol yn cynnig cyfle mwy ffurfiol i roi adborth, ac roedd rhai o'r cleifion yn gweithredu fel cynrychiolwyr o fewn y prosesau llywodraethu. Roedd ffurflenni adborth yn cael eu defnyddio i gasglu barn, ac roedd y wybodaeth hon yn cael ei hadolygu mewn cyfarfodydd llywodraethu clinigol er mwyn nodi themâu a llywio newidiadau i'r gwasanaeth.

Roedd byrddau “Dywedoch chi, gwnaethom ni” ar y ddwy ward yn dangos sut roedd sylwadau'r cleifion wedi dylanwadu'n uniongyrchol ar welliannau i'r amgylchedd a'r rhaglen gweithgareddau. Roedd gwasanaethau eirioli yn ymweld â'r gwasanaeth yn wythnosol, gan gynnig ffordd annibynnol ychwanegol i'r cleifion fynegi pryderon a rhannu barn. Nododd y tîm arolygu fod y cleifion yn teimlo bod y staff yn gwrando arnynt a'u bod yn hyderus y byddai camau'n cael eu cymryd i ymateb i sylwadau a godwyd yn ystod cyfarfodydd neu sgysiau unigol.

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

## Gofal Diogel

### Yr Amgylchedd

Roedd amgylchedd Tŷ Cwm Rhondda yn lân, yn daclus ac yn addas i ddarparu gofal. Roedd y ddwy ward yn dawel ac yn drefnus, ac roedd yr ardaloedd cymunedol yn ymddangos yn groesawgar ac wedi'u dodrefnu'n briodol. Roedd gerddi caeedig ar gael i'r cleifion, ac roedd yr amgylchedd ehangach yn cefnogi preifatrwydd am fod ystafelloedd preifat ar gael ar gyfer trafodaethau ac ymweliadau.

Roedd yr ystafelloedd gwely yn cynnwys cyfleusterau en-suite ac mewn cyflwr da, a gallai'r cleifion eu personoli. Cadarnhaodd yr adborth a gafwyd gan y staff a'r cleifion fod yr amgylchedd yn teimlo'n ddiogel ac yn hyrwyddo awyrgylch cartrefol. Nodwyd mân faterion yr oedd angen rhoi sylw iddynt, gan gynnwys gwaith paent wedi plicio a chasyn wedi'i ddifrodi o amgylch sinc ar Ward Clydwch.

**Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y caiff y gwaith paent sydd wedi plicio a'r casyn sydd wedi'i ddifrodi eu trwsio neu eu newid.**

### Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Roedd trefniadau rheoli risg wedi'u hymgorffori'n dda ym mhob rhan o'r gwasanaeth. Roedd y staff yn deall sut i nodi, cofnodi ac uwchgyfeirio risgiau, a gwnaethant ddangos hyder wrth ddefnyddio Datix i roi gwybod am ddigwyddiadau neu bryderon yn ymwneud â diogelu. Roedd y lefelau arsylwi yn briodol ac yn cael eu dogfennu'n glir, a chadarnhaodd y cleifion eu bod yn teimlo'n ddiogel ar y wardiau.

Roedd larymau personol ar gael i'r staff ac fe'u gwelwyd yn eu gwisgo yn ystod yr arolygiad. Roedd asesiadau risg amgylcheddol, gan gynnwys archwiliadau o bwyntiau clymu, yn cael eu cynnal yn rheolaidd, ac roedd prosesau clir ar waith i fynd i'r afael â pheryglon. Roedd y staff yn deall y mesurau diogelwch tân, a gwelsom dystiolaeth o wiriadau rheolaidd a llwybrau clir ar gyfer gwagio'r adeilad. Roedd y gwasanaeth yn ymwybodol o'r pwysau ar y wardiau ac yn ymateb yn briodol drwy addasu gweithgareddau neu lefelau staffio pan fo angen.

### Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Roedd yr arferion atal a rheoli heintiau yn gadarn ac yn cael eu cymhwyso'n gyson. Roedd y wardiau yn ymddangos yn lân ac nid oedd unrhyw annibendod, a dangosodd y staff wybodaeth dda am y gweithdrefnau rheoli heintiau. Roedd

amserlenni glanhau yn cael eu cadw ac ar gael i'w gweld, gyda rolau clir ar gyfer y staff nyrsio, y gweithwyr cymorth gofal iechyd, a'r staff cadw tŷ.

Roedd cyfarpar diogelu ar gael ac yn cael ei ddefnyddio'n briodol, ac roedd y staff wedi cael hyfforddiant ar dechnegau gwisgo a diosg. Roedd cyfleusterau hylendid dwylo ar gael ym mhob rhan o'r amgylchedd, ynghyd ag arwyddion clir, ac roedd y cleifion yn cael eu hannog i olchi eu dwylo cyn cymryd rhan mewn sesiynau coginio neu cyn bwyta.

### **Maeth**

Roedd cleifion yn cael eu hasesu wrth eu derbyn, ac roedd y staff yn monitro anghenion deietegol a chymeriant bwyd lle bo angen. Roedd y fwydlen a oedd yn cael ei chylchdroi bob pedair wythnos yn cynnig dewis ac amrywiaeth, gan gynnwys opsiynau llysiuol, a gallai'r gegin addasu prydau ar gyfer anghenion clinigol neu ddiwylliannol.

Dywedodd y cleifion fod y prydau bwyd yn foddhaol ar y cyfan, a'u bod yn gwerthfawrogi'r hyblygrwydd ychwanegol a gynigiwyd drwy eitemau oddi ar y fwydlen, y siop ar y safle, a chyfleoedd i brynu bwyd yn ystod absenoldeb dan oruchwyliaeth. Roedd y nosweithiau tecawê bob nos Sadwrn yn cyfrannu'n gadarnhaol at y profiad cymdeithasol ar y wardiau hefyd.

Roedd y staff yn cynnig anogaeth i gleifion yr oedd angen cymorth arnynt i fwyta neu yfed, a gallai cleifion ddefnyddio'r gegin therapi galwedigaeth i baratoi bwyd fel rhan o'u proses adsefydlu. Lle roedd anawsterau llyncu neu ddeietau arbennig yn cael eu nodi, roedd atgyfeiriadau at ddeietegwyr neu therapyddion lleferydd ac iaith yn cael eu gwneud drwy'r meddyg teulu.

### **Rheoli meddyginiaethau**

Roedd cyffuriau a reolir yn cael eu storio'n ddiogel mewn cypyrddau dan glo, ac roedd gwiriadau dyddiol yn cael eu cwblhau yn ystod pob cyfarfod trosglwyddo. Roedd system presgripsiynu electronig Ashton yn sicrhau bod y cofnodion meddyginiaeth yn gywir ac yn gyfredol, ac roedd adolygiadau'n cael eu cwblhau yn ystod cyfarfodydd y tîm amlddisgyblaethol.

Roedd y cyffuriau brys yn gyfredol ac yn cael eu storio mewn lleoliadau wedi'u nodi'n glir, ac roedd tymereddau'r oergelloedd yn cael eu monitro'n rheolaidd. Gallai'r staff esbonio'r gweithdrefnau cywir ar gyfer rhoi gwybod am wallau o ran meddyginiaethau a'u huwchgyfeirio, ac roedd y cofnodion yn dangos bod gwersi a ddysgwyd o ddigwyddiadau yn cael eu rhannu â'r tîm cyfan.

Ar noson gyntaf yr arolygiad, gwelsom nad oedd meddyginiaethau a oedd wedi'u taflu neu yr oedd y dyddiad defnyddio arnynt wedi mynd heibio yn cael eu storio'n ddiogel

yn yr ystafell glinigol. Roedd hyn yn peri risg y gallai rhywun gael gafael arnynt neu eu defnyddio'n amhriodol. Aethpwyd i'r afael â'r mater ar unwaith a chafodd ei ddatrys yn ystod yr arolygiad.

**Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y caiff unrhyw feddyginiaethau y mae'r dyddiad defnyddio arnynt wedi mynd heibio, y rhoddwyd y gorau iddynt neu sydd wedi'u taflu, eu storio'n ddiogel a'u symud o'r ardaloedd clinigol yn ddi-oed, yn unol â gweithdrefnau rheoli meddyginiaethau diogel.**

Roedd y cleifion yn cymryd rhan mewn trafodaethau am eu meddyginiaeth ac yn cael eu cefnogi i ddeall sgil-ffeithiau posibl.

### **Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed**

Roedd trefniadau diogelu Tŷ Cwm Rhondda yn gadarn. Roedd pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant hyd at lefel 3, ac roedd yr arweinwyr diogelu wedi cwblhau hyfforddiant hyd at lefel 4, a oedd yn sicrhau bod lefel dda o arbenigedd yn y gwasanaeth.

Dangosodd y staff ddealltwriaeth glir o ran sut i nodi a rhoi gwybod am bryderon yn ymwneud â diogelu, a'u huwchgyfeirio, ac roeddent yn defnyddio Datix i gofnodi digwyddiadau. Roedd atgyfeiriadau diogelu diweddar wedi cael eu rheoli'n briodol, gan gynnwys cyfathrebu tryloyw â'r awdurdod lleol.

Dywedodd y cleifion wrth y tîm arolygu eu bod yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn gwybod â phwy y dylent siarad pe bai ganddynt bryderon. Roedd gwasanaethau eirioli ar gael bob wythnos i gefnogi'r cleifion i godi materion. Roedd themâu a phatrymau yn ymwneud â diogelu yn cael eu monitro drwy gyfarfodydd llywodraethu misol, ac roedd gwersi a ddysgwyd o ddigwyddiadau yn cael eu rhannu drwy sesiynau goruchwyllo ac ymarfer myfyriol.

### **Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol**

Roedd y gwasanaeth yn sicrhau bod dyfeisiau meddygol a chyfarpar diagnostig yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda a'u bod ar gael pan fo angen. Roedd y staff yn cwblhau gwiriadau rheolaidd o'r cyfarpar dadebru, y silindrau ocsigen, a dyfeisiau clinigol eraill. Roedd y cofnodion yn cadarnhau bod y cyfarpar brys yn gyfredol ac yn cael ei storio mewn lleoliadau hygrych.

Roedd y staff yn deall sut i ddefnyddio'r adnoddau diagnostig yn ddiogel ac roedd hyfforddiant ar gynnal bywyd a defnyddio silindrau ocsigen yn cael ei ddarparu. Fodd bynnag, er y dywedwyd wrthym fod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ar-lein BOC ar silindrau ocsigen, roedd cyfarwyddwr yr ysbyty wrthi'n adolygu hyn er mwyn cadarnhau lefelau cydymffurfiaeth a sicrhau bod yr holl hyfforddiant a gwblhawyd wedi'i gofnodi'n gywir yn y data ar hyfforddiant staff.

Dangosodd y gwasanaeth hefyd fod y cyfarpar yn cael ei oruchwyllo'n briodol drwy archwiliadau rheolaidd a gwiriadau gan y fferyllfa, a oedd yn helpu i sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofynion diogelwch.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod pob aelod o'r staff sy'n defnyddio silindrau ocsigen BOC wedi cwblhau'r hyfforddiant priodol.**

### **Gofal diogel a chlinigol effeithiol**

Roedd y gofal a oedd yn cael ei ddarparu yn Tŷ Cwm Rhondda yn ddiogel, yn briodol yn glinigol, ac yn cael ei lywio gan adolygiadau amlddisgyblaethol rheolaidd. Dywedodd y staff eu bod yn cael digon o amser i ddiwallu anghenion y cleifion, a bod y cymysgedd sgiliau yn y tîm yn eu helpu i ddarparu gofal effeithiol.

Roedd polisiau'r gwasanaeth, canllawiau NICE, a'r Cod Ymarfer ar gael yn hawdd ac roedd y staff yn eu deall, ac roedd diweddariadau'n cael eu rhannu drwy gyfarfodydd llywodraethu a sesiynau goruchwyllo. Roedd y tîm amlddisgyblaethol yn gweithio'n dda, ac roedd rowndiau ward ac adolygiadau rheolaidd yn cael eu dogfennu'n glir ym mhob rhan o'r gwasanaeth.

Clinical audits, including those focused on medication, restrictive practices, physical health and record-keeping were used to monitor practice and identify improvements. Staff were confident that the escalation processes for clinical concerns were effective.

Roedd y dull cyffredinol o ddarparu gofal yn canolbwyntio ar adfer, gyda chyfleoedd strwythuredig ar gyfer ymgysylltiad therapiwtig.

### **Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd**

Dangosodd y staff ei fod yn cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd. Roedd archwiliadau wythnosol yn cael eu cynnal gan ddefnyddio llwyfannau digidol, ac roedd y canfyddiadau'n cael eu cyflwyno mewn cyfarfodydd llywodraethu clinigol lle roedd themâu, tueddiadau a champau gweithredu'n cael eu trafod.

Roedd y gwasanaeth yn cymryd rhan mewn mentrau fel Safewards a rhaglenni llesiant staff, ac roedd y cleifion yn cyfrannu drwy gyfarfodydd dyddiol a chyfleoedd i roi adborth. Roedd byrddau "Dywedoch chi, gwnaethom ni" ar y ddwy ward yn dangos enghreifftiau clir o newidiadau a wnaed mewn ymateb i safbwyntiau cleifion.

Roedd y rheolwyr hefyd yn cerdded o amgylch y gwasanaeth yn rheolaidd i nodi materion a monitro safonau. Roedd y trefniadau hyn yn dangos ymrwymiad i ddysgu a datblygu'n barhaus.

### **Technoleg rheoli gwybodaeth a chyfathrebu**

Roedd trefniadau llywodraethu gwybodaeth yn sicrhau bod cofnodion y cleifion a deunyddiau cyfathrebu yn cael eu cadw'n ddiogel. Roedd cyfrinair yn diogelu'r systemau electronig, ac roedd ffeiliau papur yn cael eu storio mewn ardaloedd dan glo, a dim ond yr aelodau hynny o staff yr oedd eu hangen arnynt ar gyfer eu gwaith allai gael mynediad iddynt.

Roedd y staff yn defnyddio systemau e-bost diogel y GIG wrth rannu gwybodaeth ag asiantaethau allanol, ac roedd asesiadau risg unigol yn cael eu cynnal o'r dyfeisiau digidol a ddefnyddiwyd gan y staff.

Roedd polisiâu cyfredol yn ymwneud â diogelu data ar waith, ac roedd y staff yn eu deall. Roedd y defnydd o adnoddau digidol i gyfathrebu â chleifion, gan gynnwys apiau cyfieithu a fideoalwadau, yn cefnogi prosesau rhannu gwybodaeth diogel ac effeithiol ac yn cynnal cyfrinachedd.

### **Rheoli cofnodion**

Roedd y cofnodion yn drefnus ac yn cefnogi gofal diogel a chydgyssylltiedig. Roedd y cofnodion papur a'r cofnodion electronig yn hawdd eu deall, ac roeddent yn cael eu storio'n ddiogel ac yn cydymffurfio â gofynion GDPR. Roedd y staff wedi dogfennu gofal yn gyson mewn asesiadau, adolygiadau aml-ddisgyblaethol, gwiriadau iechyd corfforol, a nodiadau rowndiau ward. Roedd prosesau monitro yn archwilio ansawdd dogfennau ac yn sicrhau eu bod yn gyflawn.

### **Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl**

Nid oedd prosesau monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn rhan o gwmpas yr arolygiad hwn.

### **Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010: Cynllunio a darparu gofal**

Roedd y Cynlluniau Gofal a Thriniaeth yn fanwl ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn, ac roeddent yn ymdrin â phob maes perthnasol, gan gynnwys iechyd meddwl, iechyd corfforol, anghenion cymdeithasol, risgiau, a nodau o ran adsefydlu. Roedd y cofnodion a welsom yn cynnwys tystiolaeth dda o gyfranogiad mewn gwaith cynllunio, ynghyd ag adolygiadau rheolaidd a chyfraniadau gan y Clinigydd Cyfrifol, seicolegydd, staff nyrsio, a chydgyssylltwyr gofal.

Roedd y cleifion yn deall eu cynlluniau gofal, ac roedd cyfarfodydd yn cael eu defnyddio i drafod cynnydd a'r camau nesaf. Roedd y ddogfennaeth yn dangos bod

asesiadau o alluedd yn cael eu cwblhau pan fo angen a bod mesurau diogelu cyfreithiol priodol ar waith.

Roedd rhai meysydd lle roedd angen gwella'r prosesau cynllunio gofal. Mewn rhai o'r cofnodion clinigol a welsom, nid oedd y Cynlluniau Cefnogi Ymddygiad yn Gadarnhaol wedi'u diweddarau ers 2024, a oedd yn golygu nad oeddent yn adlewyrchu anghenion neu broffiliau risg cyfredol y cleifion yn llawn. At hynny, er bod y cynlluniau gofal yn gadarn yn glinigol, nid oeddent bob amser yn cofnodi lleisiau'r cleifion yn eu geiriau eu hunain.

**Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod Cynlluniau Cefnogi Ymddygiad yn Gadarnhaol yn cael eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd fel eu bod yn adlewyrchu anghenion a phroffil risg cyfredol pob claf.**

**Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod cynlluniau gofal yn cynnwys llais y claf yn ei eiriau ei hun fel bod y ddogfennaeth yn adlewyrchu ei farn, ei ddewisiadau a'i brofiad bywyd.**

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

## Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Roedd trefniadau llywodraethu Tŷ Cwm Rhondda wedi'u sefydlu'n dda ac yn helpu i redeg y gwasanaeth yn ddiogel ac yn effeithiol. Dywedodd y staff wrthym fod yr uwch-reolwyr yn weladwy, yn hawdd mynd atynt ac ar gael pan fo angen, a bod hyn yn cefnogi diwylliant cadarnhaol a chyfathrebu cyson ym mhob rhan o'r gwasanaeth.

Canfu'r tîm arolygu fod cyfarfodydd llywodraethu yn cael eu cynnal yn rheolaidd a'u bod yn cynnwys goruchwyllo digwyddiadau, cwynion, prosesau rheoli meddyginiaethau, cydymffurfiaeth â hyfforddiant, a gweithgarwch diogelu.

Ymatebodd y staff yn gyflym i geisiadau am wybodaeth yn ystod yr arolygiad, ac roedd hyn yn dangos bod systemau gweinyddol cadarn a llinellau atebolrwydd clir ar waith.

Roedd y polisiâu a'r gweithdrefnau yn gyfredol ac ar gael i'r staff, a allai ddisgrifio'r broses ar gyfer rhannu gwybodaeth gyfredol drwy gyfarfodydd, cyfarfodydd trosglwyddo, a diweddariadau drwy e-bost.

Roedd yn amlwg bod diwylliant y staff wedi gwella ers yr arolygiad diwethaf. Dywedodd y staff wrthym fod y tîm yn cydweithio'n agosach â'i gilydd, bod prosesau cyfathrebu wedi'u hatgyfnerthu, a bod mwy o ymddiriedaeth a hyder ymhlith y gweithlu.

Roedd y ddogfennaeth, gan gynnwys archwiliadau, nodiadau'r tîm amlddisgyblaethol ac asesiadau risg, yn dangos tystiolaeth o oruchwyliaeth weithredol gan yr arweinwyr. Ar y cyfan, roedd y prosesau llywodraethu yn drefnus ac wedi'u hymgorffori'n glir.

## Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Roedd gan y gwasanaeth brosesau clir ac effeithiol ar gyfer rheoli cwynion, digwyddiadau a digwyddiadau a chamgymeriadau a fu bron â digwydd Roedd gwybodaeth ar gael i'r cleifion am sut i godi pryderon, gan gynnwys opsiynau dienw. Roedd gwybodaeth am gwynion wedi'i harddangos ar hysbysfyrdau, a gallai'r staff ddisgrifio sut y gallai cleifion gael gwasanaethau eirioli i'w helpu i godi materion. Esboniodd y staff fod cwynion a phryderon yn cael eu hadolygu er mwyn nodi themâu, a bod gwersi a ddysgwyd yn cael eu rhannu yn ystod sesiynau goruchwyllo, cyfarfodydd trosglwyddo, a chyfarfodydd llywodraethu clinigol,

Roedd digwyddiadau'n cael eu cofnodi gan ddefnyddio Datix ac yn cael eu hadolygu gan uwch-aelod o'r staff a'r strwythur llywodraethu clinigol ehangach. Dangosodd y staff ddealltwriaeth o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â rhoi gwybod am bryderon a'u huwchgyfeirio. Roedd digwyddiadau diogelu yn cael eu rheoli mewn modd tryloyw, gydag atgyfeiriadau priodol at asiantaethau allanol lle bo angen, ac roedd gwersi a ddysgwyd yn cael eu rhannu â'r staff.

### **Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu**

Roedd yr arferion recriwtio yn ddiogel ac yn gyson â'r gofynion rheoliadol. Roedd gwiriadau cyn cyflogi, gan gynnwys dilysu gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a gwirio cofrestrïadau proffesiynol, yn cael eu cynnal drwy system recriwtio'r sefydliad, ac roedd ffeiliau'r staff yn cael eu storio'n ddiogel gyda'r rheolaethau priodol o ran mynediad.

Dyweddodd y staff fod eu hyfforddiant sefydlu wedi eu paratoi'n dda ar gyfer eu rôl, a'i fod yn cynnwys cysgodi, sesiynau goruchwyllo, a chwblhau modiwlau hyfforddiant yn ôl yr angen. Roedd prosesau cynllunio'r gweithlu yn sicrhau bod y lefelau staffio yn briodol, ac nid oedd y gwasanaeth yn defnyddio fawr ddim staff asiantaeth.

Dyweddwyd bod y gweithlu yn sefydlog, ac roedd y staff yn teimlo bod y tîm yn cynnwys digon o aelodau i gwblhau'r tasgau dyddiol yn ddiogel.

### **Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol**

Roedd prosesau cynllunio'r gweithlu yn drefnus, ac roedd y rotas yn cael eu goruchwyllo'n ddyddiol er mwyn sicrhau bod y lefelau staffio yn cyfateb i anghenion y cleifion. Dywedodd y staff eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan y rheolwyr a'i bod yn hawdd trefnu sesiynau goruchwyllo anffurfiol a ffurfiol. Roedd cydymffurfiaeth â hyfforddiant yn uchel, gyda chyfradd gydymffurfiaeth gyffredinol o 96%, ac roedd modiwlau gorfodol yn cael eu monitro drwy brosesau llywodraethu. Roedd pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu hyd at Lefel 3, ac roedd yr arweinwyr allweddol wedi ei gwblhau hyd at Lefel 4, a oedd yn dangos ymrwymiad sefydliadol cryf i ddiogelu.

Gallai'r staff gael sesiynau ymarfer myfyriol rheolaidd wedi'u harwain gan y tîm seicoleg. Roedd cyfraddau goruchwyllo ac arfarnu yn dda, ac roedd cyfleoedd ar gael ar gyfer datblygiad proffesiynol, gan gynnwys cyllid ar gyfer DPP a hyfforddiant clinigol arbenigol.

Disgrifiodd y staff ddiwylliant cadarnhaol lle roeddent yn teimlo eu bod yn cael eu parchu a'u gwerthfawrogi, a'u bod yn gallu codi pryderon. Lle roedd bylchau yn bodoli, fel hyfforddiant BOC ar silindrau ocsigen, roedd yr hyfforddiant wedi'i drefnu, ac roedd trefniadau yn cael eu gwneud i ddiweddarau'r cofnodion

hyfforddiant. Dangosodd y gwasanaeth weithlu brwdfrydig a strwythurau clir i gefnogi datblygiad a chynnal atebolrwydd.

## 4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

# Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ar noson gyntaf yr arolygiad, gwelsom nad oedd meddyginiaethau a oedd wedi'u taflu neu yr oedd y dyddiad defnyddio arnynt wedi mynd heibio yn cael eu storio'n ddiogel yn yr ystafell glinigol. Aethpwyd i'r afael â'r mater ar unwaith a chafodd ei ddatrys yn ystod yr arolygiad.	Roedd hyn yn peri risg y gallai rhywun gael gafaél arnynt neu eu defnyddio'n amhriodol.	Hysbyswyd yr uwch-nyrs.	Aeth y nyrs ati ar unwaith i roi'r holl feddyginiaethau a oedd wedi'u taflu neu yr oedd y dyddiad defnyddio arnynt wedi mynd heibio mewn cwpwrdd dan glo. Briffiodd cyfarwyddwr yr ysbyty bob aelod o'r staff.

## Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Tŷ Cwm Rhondda

Dyddiad yr arolygiad: 2-4 Chwefror 2026

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1.					

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (priflythrennau):**

**Teitl swydd:**

**Dyddiad:**

# Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Tŷ Cwm Rhondda

Dyddiad yr arolygiad: 2-4 Chwefror 2026

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1.	Nodwyd mân faterion amgylcheddol yr oedd angen rhoi sylw iddynt, gan gynnwys gwaith paent wedi plicio a chasyn wedi'i ddifrodi o amgylch sinc ar Ward Clydwch.	Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y caiff y gwaith paent sydd wedi plicio a'r casyn sydd wedi'i ddifrodi eu trwsio neu eu newid.	Yr amgylchedd.	Gosodwyd casyn newydd o amgylch y sinc ac ail-baentiwyd yr ardal dan sylw.	Rhiannon Davies Wedi'i gwblhau 09/02/2026
2.	Nid oedd meddyginiaethau a oedd wedi'u taflu neu yr oedd y dyddiad defnyddio arnynt wedi mynd heibio yn cael eu storio'n ddiogel.	Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y staff yn parhau i gydymffurfio â'r canllawiau ar feddyginiaethau sydd wedi'u taflu ac y mae'r	Cadw, trin a gwaredu meddyginiaethau'n ddiogel.	Cafodd y mater yn ymwneud â rheoli meddyginiaethau a oedd wedi'u taflu neu yr oedd y dyddiad defnyddio arnynt wedi mynd heibio ei raeadru	Rhiannon Davies Cwblhawyd yn ystod yr arolygiad, ond mae hapwiriadau yn parhau i gael eu

		dyddiad defnyddio arnynt wedi mynd heibio.		a gosodwyd disgwyladau. Mae hapwiriadau o'r clinig wedi'u cwblhau.		cynnal bob wythnos.
3.	Dywedwyd wrthym fod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ar-lein BOC ar silindrau ocsigen, ac roedd cyfarwyddwr yr ysbyty wrthi'n adolygu hyn er mwyn cadarnhau lefelau cydymffurfiaeth a sicrhau bod yr holl hyfforddiant a gwblhawyd wedi'i gofnodi'n gywir yn y data ar hyfforddiant staff.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod pob aelod o'r staff sy'n defnyddio silindrau ocsigen BOC wedi cwblhau'r hyfforddiant priodol.	Cynllunio'r gweithlu a hyfforddiant.	Codwyd y mater gyda'r uwch-dîm arwain a'r adran Dysgu a Datblygu er mwyn sicrhau bod y cofnodion yn cael eu cadw'n gywir.  Mae dolen i hyfforddiant ar-lein BOC ar silindrau ocsigen bellach ar gael ar Academy i bob cydweithiwr sy'n cwblhau hyfforddiant cynnal bywyd brys. Bydd pob cydweithiwr yn cael neges atgoffa i gwblhau'r hyfforddiant hwn bob blwyddyn er mwyn cadw cofnodion cywir ar Priory.	Rhiannon Davies	Rhodddwyd y wybodaeth ddiweddaraf i holl gydweithwyr Tŷ Cwm Rhondda erbyn 24/02/2026  Cafodd ei roi ar waith ar Academy a'i raeadru ar 02/03/2026

4.	<p>Nid oedd rhai o'r Cynlluniau Cefnogi Ymddygiad yn Gadarnhaol wedi'u diweddarw ers 2024, a oedd yn golygu nad oeddent yn adlewyrchu anghenion neu broffiliau risg cyfredol y cleifion yn llawn.</p>	<p>Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod Cynlluniau Cefnogi Ymddygiad yn Gadarnhaol yn cael eu hadolygu a'u diweddarw'n rheolaidd fel eu bod yn adlewyrchu anghenion a phroffil risg cyfredol pob claf.</p>	<p>Rheoli cofnodion.</p>	<p>Mae adolygiadau o Gynlluniau Cefnogi Ymddygiad yn Gadarnhaol wedi dechrau ar y safle.</p>	<p>Rhiannon Davies</p>	<p>Caiff y cyfan eu hadolygu a'u cwblhau erbyn 30/04/2026. Yna, byddant yn cael eu cwblhau yn unol â'r newidiadau sydd eu hangen a bydd y cynlluniau gofal yn cyfeirio atynt.</p>
5.	<p>Nid oedd y cynlluniau gofal bob amser yn cofnodi lleisiau'r cleifion yn eu geiriau eu hunain.</p>	<p>Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod cynlluniau gofal yn cynnwys llais y claf yn ei eiriau ei hun fel bod y ddogfennaeth yn adlewyrchu ei farn, ei ddewisiadau a'i brofiad bywyd.</p>	<p>Rheoli cofnodion.</p>		<p>Rhiannon Davies</p>	<p>Mae'r disgwyliadau o ran cofnodi lleisiau'r cleifion yn eu geiriau eu hunain wedi'u cyfleu.</p>

---

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth**

**Enw (priflythrennau): Rhiannon Davies**

**Teitl swydd: Cyfarwyddwr yr Ysbyty**

**Dyddiad: 23/03/2026**